Cyflenwr wedi mynd allan o fusnes

Os yw cyflenwr y nwyddau neu wasanaethau wedi **mynd allan o fusnes**, mae'r camau y gallwch eu cymryd yn dibynnu ar b'un ai yw'r cyflenwr yn **gwmni cyfyngedig**, yn gweithredu'n unigol (**unig fasnachwr**) neu'n **bartneriaeth**. Os oes gennych warant, mae'n bosib y gallwch wneud cais dan y warant.

Os ydych wedi gwneud unrhyw daliadau megis talu blaendal trwy ddefnyddio cerdyn credyd, neu gredyd a drefnwyd gan y cyflenwr, ac mae cost y nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu gwadu yn fwy na £100 ond llai na £30,000, mae'n bosib bod y cwmni credyd yn **gydradd atebol**. Nid yw hyn fel arfer yn berthnasol os defnyddiwyd cerdyn debyd megis switch neu delta, pan fod yr arian yn cael ei dynnu'n uniongyrchol o'ch cyfrif banc. Fodd bynnag, mae cynllun 'chargeback' cerdyn debyd Visa yn eich caniatáu i hawlio arian yn ôl os nad yw'r nwyddau yn eich cyrraedd neu os ydynt wedi'u difrodi.

Unig fasnachwr/partneriaeth

Os oeddech yn delio ag unig fasnachwr neu bartneriaeth, maen nhw'n atebol hyd yn oed os ydynt wedi darfod masnachu. Dylech barhau i drafod gyda'r perchennog neu bartner a gallech ystyried ei siwio am iawndal os nad ydych yn llwyddo i ddod i drefniant. Os nad oes gennych fanylion cyswllt y cwmni mwyach, gallai Cyswllt Defnyddwyr eich helpu. Ffoniwch nhw ar 0845 404 0506. Cyn i chi gymryd camau yn y llys, bydd angen i chi ddarganfod p'un ai bod y masnachwr yn gallu talu neu beidio. Os yw'r masnachwr wedi datgan ei hun yn bersonol yn fethdalwr, nid oes gwerth mynd ag ef i'r llys. Gallwch wirio i weld os yw rhywun yn fethdalwr drwy glicio ar www.bis.gov.uk/insolvency ac edrych ar y Gofrestr Ansolfedd Unigol.

Os ydych eisoes wedi colli arian ar nwyddau neu wasanaethau diffygiol, nid oes gwerth gwastraffu mwy o arian ar siwio rhywun sy'n methu talu.

Cwmni cyfyngedig

Os yw'r cyflenwr yn gwmni cyfyngedig, mae'n bosib ei fod wedi **mynd i ddwylo'r gweinyddwyr** neu **wedi cael ei ddiddymu**.

Gweinyddiad

Os yw cwmni cyfyngedig yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, caiff **gweinyddydd** ei benodi. Mae'r weithdrefn gyfreithiol hon yn rhoi seibiant i'r cwmni o orfod delio â'i gredydwyr. Bydd y gweinyddydd yn gweld os oes modd achub y cwmni neu ei werthu fel busnes gweithredol fel ateb amgen i fethdaliad.

Diddymiad

Gallai cwmni cyfyngedig gael ei ddiddymu yn **wirfoddol** yn dilyn penderfyniad y deiliaid diddordeb bod y cwmni wedi mynd i ddyled neu ddiddymiad oherwydd gorchymyn llys. Unwaith bod cwmni wedi cael ei ddiddymu, bydd **diddymwr** yn cael ei benodi i gasglu ac ailddosbarthu asedau'r cwmni i gyd gan ddefnyddio rheolau'r cyfreithiau ansolfedd. Gelwir hyn yn **dirwyn i ben**. Ar ôl hyn, bydd y diddymwr yn

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

anfon y cyfrifon terfynol at y **Cofrestrydd Cwmnïau** ac yna ystyrir bod y cwmni wedi cael ei ddiddymu (mynd i'r wal) dri mis yn hwyrach.

A yw'r cyflenwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr neu wedi cael ei ddiddymu?
Mae'n bosib y gallwch ddarganfod p'un ai bod cyflenwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr neu wedi cael ei ddiddymu ynghyd â manylion y gweinyddwr neu ddatodwr o'r ffynonellau canlynol:

- Cyswllt Defnyddwyr ar: 0845 404 0506
- cymdeithas masnachwyr lleol neu siambr fasnach
- cymdeithas masnachu (os oedd y masnachwr yn aelod)
- Tŷ'r Cwmnïau. Ffoniwch y ganolfan ar: 0303 1234 500 neu rhowch glic ar www.companieshouse.co.uk Cewch hyd i wybodaeth sylfaenol am y cwmni (fel p'un ai yw'r cwmni wedi cael ei ddiddymu neu beidio) yn rhad ac am ddim
- cwmnïau cyfrifwyr neu gyfreithwyr lleol sy'n delio â gweinyddiaethau
- swyddfa'r Derbynnydd Swyddogol lleol. Dylech ddod o hyd i'r rhif yn y llyfr ffôn neu drwy ffonio ymholiadau cyfeirlyfr

Gweinyddiad a diddymiad yw'r gweithdrefnau cyfreithiol mwyaf cyffredin os yw cwmni yn mynd i'r wal ond mae yna weithdrefnau cyfreithiol eraill. Os nad yw'r cwmni wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr neu wedi cael ei ddiddymu, bydd angen i chi gysylltu ag ymgynghorydd profiadol, er enghraifft, yn eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

Sut i ddatrys eich problem

Pan fod cwmni wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr neu wedi cael ei ddiddymu, bydd angen i chi drafod gyda'r gweinyddydd neu'r diddymwr i ddatrys y problemau canlynol:

Ad-dalu blaendaliadau
Os ydych wedi talu blaendal am nwyddau na ddosbarthwyd neu wasanaethau na ddarparwyd oherwydd bod gweinyddydd neu ddiddymwr wedi cael ei benodi, mae gennych yr hawl i ofyn am eich blaendal yn ôl. Dylech ysgrifennu at y gweinyddydd neu ddiddymwr gan amgáu tystiolaeth megis derbynneb, bonyn siec neu daleb cerdyn credyd a chadwch gopi o'ch llythyr. Sut bynnag, bydd eich blaendal yn cael ei ad-dalu os oes gan y cwmni ddigon o asedau i'ch talu a gallai hyn fod yn annhebygol.

Dosbarthu nwyddau a archebwyd
Os yw'r nwyddau a archebwyd wedi cael eu **clustnodi** ar eich cyfer gan y cyflenwr (er enghraifft, maen nhw wedi rhoi eich enw chi arnynt), mae gennych yr hawl i'w derbyn a dylech gysylltu â'r gweinyddydd neu ddiddymwr i'w atal rhag cael eu gwerthu. Os na, efallai y gallwch drafod â'r gweinyddydd neu'r derbynnydd i werthu'r nwyddau i chi, ond ni allwch eu gorfodi. Os yw'r cwmni yn cael ei ddiddymu, mae'n bosib bod yn rhaid i'r diddymwr werthu'r nwyddau er mwyn cael arian i dalu'r credydwyr â blaenoriaeth. Sut bynnag, byddant yn gwerthu'r nwyddau i chi os ydynt

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ar gael ar ôl talu'r credydwyr â blaenoriaeth. Mae'n annhebygol y byddwch yn cael **gwarant**, ond efallai y byddwch am dderbyn y nwyddau a thalu'r swm sy'n weddill os ydynt yn dod o dan warant y cynhyrchwyr.

Gwaith na gyflawnwyd
Os yw'r cwmni wedi **mynd i ddwylo'r gweinyddwyr**, mae'n bosib y byddwch yn gallu cael unrhyw waith y mae'n ei wneud ar eich cyfer wedi ei gwblhau. Dylech gysylltu â'r gweinyddydd i weld os yw hyn yn bosibl, ond ni allwch fynnu bod hyn yn digwydd.

Os yw cwmni yn cael ei **ddiddymu**, ni fydd y derbynnydd yn gallu gwarantu'r gwaith a bydd yn rhaid i chi benderfynu p'un ai eich bod yn dymuno gwneud y gwaith heb warant neu golli eich blaendal. Mae'n bosib y gallwch drafod gostyngiad mewn pris i'ch digolledu am dor-cytundeb pan fod y credydwyr â blaenoriaeth wedi cael eu talu'n llawn. Os yw'r cwmni wedi cael ei ddiddymu, gallwch wneud cais am iawndal ond ni allwch fynnu bod y gwaith yn cael ei gyflawni. Os yw'r cwmni yn aelod o gymdeithas masnachu, mae'n bosib bod ganddo gynllun diogelu blaendaliadau sy'n caniatáu un o'i aelodau eraill i gyflawni'r gwaith.

Nwyddau neu wasanaethau anfoddhaol
Os yw'r cwmni wedi **mynd i ddwylo'r gweinyddwyr** ac mae'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn ddiffygiol, mae'n bosib bydd y gweinyddydd yn trefnu cywiro'r diffyg, er enghraifft, trwsio'r nwyddau, gwella neu gyflawni'r gwaith. Dylech gysylltu â'r gweinyddydd i weld os yw hyn yn bosibl, ond ni allwch ei orfodi. Os yw'r gweinyddydd yn gwrthod, byddwch yn ei chael yn anodd gorfodi eich hawliau oherwydd mae'n debyg na fydd digon o asedau i dalu iawndal. Os gwerthwyd y cwmni fel busnes gweithredol, bydd angen i chi drafod gyda'r perchennog newydd a fydd yn rheoli asedau'r cwmni ond nid ei gyfrifoldebau. Ni allwch fynnu gwarant neu gytundeb cynnal a chadw ond efallai bydd y perchennog yn cytuno i anrhydeddu'r warant neu gytundeb os yw'n fanteisiol iddo.

Os yw cwmni wedi cael ei **ddiddymu**, ni allwch fynnu bod y diddymwr yn datrys eich problem. Dylech wneud cais am iawndal. Sut bynnag, byddwch dim ond yn ei dderbyn os oes asedau ar gael ar ôl talu'r credydwyr â blaenoriaeth yn llawn. Os yw'r cwmni yn aelod o gymdeithas masnachu, mae'n bosib bod ganddo gynllun bondio a fydd yn gynorthwyol. Er enghraifft, bydd Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain yn cynnig taith yn ôl i deithwyr os yw ei asiantaeth deithio yn cael ei diddymu.

Nwyddau sy'n cael eu cadw gan y cwmni
Os yw eich nwyddau yn cael eu cadw gan gwmni, er enghraifft, er mwyn cael eu trwsio, mae gennych yr hawl i'w cael wedi'u dychwelyd. Dylech ysgrifennu at y gweinyddydd neu ddiddymydd gan ofyn amdanynt yn ôl ac addewid y byddant yn cael eu cadw'n ddiogel tan eu bod yn cael eu dychwelyd.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dechrau achos llys
- Nwyddau
- Gwarantau
- Gwasanaethau
- Credyd

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 5 Medi 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr